

## Datganiad Hygyrchedd

Rydym yn anelu at ac yn hyderus o'n gallu i sicrhau fod ein hymwelwyr yn cael profiad o safon yma yng Nghae'r Gors. Er ein bod wedi ceisio bod mor gywir â phosibl a chynnwys cymaint o fanylion ag y gallwn yn y datganiad hwn, rydym wastad yn barod i roi gwybodaeth ar unrhyw agwedd o Gae'r Gors os nad yw'r datganiad hwn yn ateb eich cwestiwn penodol.

### Maes Parcio

- Lleolir y maes parcio dros y ffordd i'r safle ac mae tri gofod parcio i'r anabl ar gael;
- Mae'r maes parcio am ddim i ymwelwyr Cae'r Gors, Canolfan Dreftadaeth Kate Roberts;
- Mae rampiau cyflymder ar y ffordd fawr er mwyn arafu traffig.

### Trafnidiaeth

- Gellir dal bws rhif 81 o Gaernarfon i Rosgadfan (gwasanaeth Seren Arian) ac mae'r arosfan yn union y tu allan i Gae'r Gors, Canolfan Dreftadaeth Kate Roberts. Am amseroedd bws cyfredol, ffoniwch *Traveline Cymru* ar 0871 200 22 33, neu ewch ar eu gwefan [www.traveline.info](http://www.traveline.info);
- Mae Caernarfon 6 milltir o Rosgadfan;
- Cyfeirnod grid Arolwg Ordnans Cae'r Gors yw SH 506 573.

### Prif fynedfa a'r Caban

- Amseroedd agor Cae'r Gors, Canolfan Dreftadaeth Kate Roberts:

#### Tymor yr Haf

Llun – Ar gau

Mawrth i Gwener - 10-4 o'r gloch

Sadwrn a Sul – 1-4 o'r gloch

#### Tymor y Gaeaf

Llun – Ar gau

Mawrth i Gwener - 10-4o'r gloch

Sadwrn a Sul – Ar gau

Gellir cysylltu ymlaen llaw i drefnu ymweliad grŵp y tu allan i oriau agor arferol Cae'r Gors, a chynhelir gweithgareddau'n achlysurol ar ddyddiau sydd fel arfer ar gau i'r cyhoedd. Ewch ar ein gwefan i weld ein dyddiadur digwyddiadau – [www.caergors.org](http://www.caergors.org);

- Caniateir cŵn tywys ym mhob ardal;
- Mae giât fach haearn i'w hagor er mwyn cael mynediad i'r safle, ac mae'r llwybr congrid, gwastad yn arwain y ffordd i Gae'r Gors;
- Mae'r brif fynedfa'n ddrws awtomatig;

- Mae uchder y ddesg groeso'n addas ar gyfer pobl gyda diffyg twf a/neu ddefnyddwyr cadair olwyn;
- Mae'r siop wedi'i lleoli y tu mewn i'r Caban, yn ogystal â sgrin 42" ar gyfer arddangos y ffilm gyflwyniadol. Mae posib cael gweld copi papur o sgript y ffilm, ac ma ear gael yn y Gymraeg neu'r Saesneg;
- Mae toiled hygyrch neillryw gerllaw'r dderbynfa ac mae cyfleusterau newid cewyn yn nhoiledau merched;
- Mae'r holl ddrysau a choridorau yn ddigon llydan i gadair olwyn/ffrâm *zimmer/coets*.

## Y Tŷ a'r Beudy

- Mae llwybr llechi gwastad yn arwain y ffordd o'r Caban i'r tŷ a'r beudy. Gall fod yn llithrig mewn tywydd gwlyb;
- Mae rhiniog pren i ddrws y beudy;
- Mae'r fynedfa yn ddigon llydan i gadair olwyn/ffrâm *zimmer/coets*;
- Mae llawr gwrthslip i'r beudy;
- Y tu mewn i'r beudy mae paneli testun, sgriniau cyffwrdd ac arteffactau.
- Mae gris o lechen wrth drothwy'r tŷ;
- Mae'r fynedfa yn ddigon llydan i gadair olwyn/ffrâm *zimmer/coets*;
- Mae llawr llechi yn y gegin a'r parlwr, *oilcloth* yn y siambr a *quarrytiles* yn y tŷ llaeth;
- Ychydig o oleuadau trydan sydd yn y tŷ ac fe geir rhannau tywyll iawn ym mhob ystafell;
- Nid yw'r drysau i'r tŷ llaeth, y parlwr na'r siambr yn ddigon llydan i gadair olwyn/ffrâm *zimmer/coets*;
- Gellir gwrando ar ddyfyniadau o waith Kate Roberts ar glustffonau wrth gerdded o amgylch y dydd;
- Cynigir taith dywysedig o gwmpas yr ystafelloedd gan staff/wirfoddolwyr Cae'r Gors i ymwelwyr;
- Mae synau cefndirol ym mhob ystafell.

## Nodweddion Synhwyaidd

- Clywed - synau cefndirol yn y tŷ, megis clocsiau, plant yn chwerthin, corddi a choginio; clustffonau i'w defnyddio yn y tŷ;
- Arogli - tân glo, blodau a pherlysiâu yn yr ardd;
- Teimlo - waliau cerrig, dodrefn pren, carthenni gwlan, oerni'r tŷ llaeth.